

Y TYST


Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 18 Mai 3, 2018 50c.

DIWEDD Y DAITH

Wedi deunaw mis, daeth taith 'Arolwg y Cyfundebau' i ben! Lanswyd hi gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Llanuwchllyn ar ddechrau Gorffennaf 2016, ond ni chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf tan fis Hydref y flwyddyn honno, a hynny yn Sardis, Pontypridd.



Cydymaith cyson i'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn ystod y daith oedd y Dr Hefin Jones, Caerdydd. Dim ond un cyfarfod y methodd ef ei fynychu oherwydd galwadau gwaith, hwnnw a gynhaliwyd yn Aberdâr gyda Chyfundeb Gogledd Morgannwg. Cymerwyd ei le ar yr achlysur hwnnw gan y Parchg Robin Samuel, Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ystod 2017, bu ymweliadau â 13 o Gyfundebau eraill ac, fel ym Mhontypridd, cafwyd croeso gwresog ymhob un ohonynt. Erbyn diwedd y flwyddyn, dim ond un Cyfundeb oedd ar ôl i ymweld ag ef yn 2018, a Chyfundeb Llŷn ac Eifionydd oedd hwnnw. Digwyddodd yr ymweliad olaf, felly, ar nos Lun, 16 Ebrill 2018.



Capel y Traeth

Cafwyd croeso mawr y tro hwn eto yng Nghapel y Traeth, Cricieth, gan y gynulleidfa o tua 30 oedd wedi dod ynghyd. Llywyddwyd y cyfarfod yn ddeheuig gan Mr Dafydd Roberts, Trefor (Cadeirydd y Cyngor), a chafwyd trafodaeth fywiog a brwd ar y diwedd. Yn ôl yr arfer yn y cyfarfodydd hyn, gofynnwyd i'r gynulleidfa awgrymu sut y gellid cyfoethogi bywyd a gwaith eu Cyfundeb. Gyda 97 o syniadau eisoes wedi eu cyhoeddi yn *Y Tyst* yn dilyn yr ymweliadau â'r Cyfundebau eraill, yr oedd cryn hyder yng Nghricieth y gellid cyrraedd y 100!

Dyma, felly, yr awgrymiadau a gafwyd:

1. Cynnal tri Sul Cyfundebol bob blwyddyn i ddod â phobl at ei gilydd i addoli ac i fwynhau cymdeithasu.
2. Cynnal ychwaneg o gyfarfodydd 'arbennig' gyda siaradwyr brwdfrydig a da, ac agor y cyfarfodydd i fod yn rhai cydenwadol. Eu cynnal, o bosibl, *rhwng* cyfarfodydd busnes y Cwrdd Chwarter.
3. Cynnal Suliau cydenwadol mewn ardaloedd penodol; nid i'r Cyfundeb cyfan, ond i eglwysi'r ardal honno.
4. Cynnal diwrnod i blant y Cyfundeb, ac/neu ddatblygu'r Ysgol Sul traddodiadol i fod yn Glwb Sul i blant.
5. Trefnu i eglwysi'r Cyfundeb ymweld â'i gilydd o dro i dro, i

addoli, i gymdeithasu ac i ddod i adnabod ei gilydd yn well.

6. Gwahodd pobl nad ydynt yn perthyn i eglwysi nac yn mynychu gwasanaethau i ddod i gyfarfodydd arbennig fel ar y Nadolig, y Pasg neu'r Sulgwyn. Agor y drws i bawb, nid dim ond i rai.

Gyda'r chwe ychwanegiad yma, daw cyfanswm yr awgrymiadau a wnaethpwyd gan y Cyfundebau yn 103! Cofier mai dim ond 10 munud oedd yn cael ei ganiatáu ar gyfer y drafodaeth ymhob cyfarfod; dychmygwch beth fyddai'r canlyniad pe byddem yn rhoi mwy o amser i'r dasg, neu'n gwneud hyn yn rheolaidd yn ein Cyrddau Eglwys!

Pobl y dŵr oer

Y casgliad ar ddiwedd y daith yw fod, yn ein plith fel Annibynwyr, pobl dda sy'n llawn syniadau ac yn hynod frwdfrydig. Y maent ym mhob Cyfundeb. Yr hyn sy'n ddiffygol ynom yw nad ydym yn darparu'r cyfle i'r syniadau hyn gael eu datblygu na'u gweithredu. Ochr yn ochr â'r brwdfrydedd, yn rhy aml, gwelwn negyddiaeth sydd angen ei chwynu o'n plith, a phobl y dŵr oer sy'n benderfynol o roi stop ar unrhyw ddatblygiad. Daw'r ymadrodd 'pobl y *fire extinguishers*' i'r meddwl!

Nid oes lle i'r fath agweddau yng ngwaith y Deyrnas. Mae cenhadaeth i'w chyflawni ac mae'n bwysig ein bod oll yn tynnu i'r un cyfeiriad, yn gwerthfawrogi syniadau ein gilydd, ac yn bwrw iddi i hybu gwaith yr Efengyl yma yng Nghymru. Diolch eto i bawb am eu croeso a'u cefnogaeth yn ystod y daith hon. Awn ati yn nerth yr Ysbryd, yn ddisgyblion i Iesu Grist, i ddweud wrth bawb am yr hyn y mae Duw wedi ei wneud drosom!

Dyddiad	Cyfundeb	Lleoliad	Cyflwynwyr
1 12/10/2016	Dwyrain Morgannwg	Sardis, Pontypridd	HJ a GT
2 21/01/2017	Llundain	Harrow	HJ a GT
3 08/02/2017	Gorllewin Morgannwg	Tabernacl, Treforus	HJ a GT
4 16/02/2017	Gogledd Morgannwg	Siloa, Aberdâr	RS a GT
5 29/03/2017	Meirion	Neuadd Llanelltud	HJ a GT
6 30/03/2017	Gorllewin Dinbych a Fflint	Lôn Swan	HJ a GT
7 26/04/2017	Gogledd Arfon	Salem, Caernarfon	HJ a GT
8 09/05/2017	Môn	Capel Ifan, Llanerchymedd	HJ a GT
9 11/05/2017	Dwyrain Caerfyrddin	Capel Sgwar, Penygroes	HJ a GT
10 07/09/2017	Dwyrain Dinbych a Fflint	Mynydd Seion, Ponciau	HJ a GT
11 13/09/2017	Penfro	Bethel, Trewyddel	HJ a GT
12 14/09/2017	Gorllewin Caerfyrddin	Seilo, Rhos Llangeler	HJ a GT
13 05/10/2017	Maldwyn	Ebeneser, Llanfair Caereinion	HJ a GT
14 29/11/2017	Ceredigion	Carmel, Prengwyn	HJ a GT
15 16/04/2018	Llŷn ac Eifionydd	Capel y Traeth, Cricieth	HJ a GT

Sul y Blodau – Llandysul

Rhai o gynulleidfa Sul y Blodau yn Llandysul yn dechrau ar yr orymdaith drwy'r pentref. Fe alwyd ym mhob

addoldy gan ddechrau yn Seion, a chynnal gwasanaeth byr ym mhob un. Thema'r oedfaon, pedair i gyd, oedd hanes diwrnod cyntaf yr Wythnos Fawr yn ôl Luc.



John Stanley Evans

Paentiodd Aneirin Jones, Aberteifi, luniau rhai o gymeriadau Cefn gwlad a adnabu, 'Yr Hen Wynebaw' chwedl teitl cyfrol D. J. Williams a heddiw r'ym ni yn talu ein gwrogaeth i un o gymeriadau cefn gwlad gorllewin Caerfyrddin. Roedd y unig fab William ac Ellen Evans, Perthyngwenyn, Capel Iwan, ac rwy'n cofio'n dda amdanaf ar y clos a'r aelwyd ar ddydd arwyl ei fam oherwydd cysylltiadau teuluol ac aelodau Seilo a Hermon, lle'r oeddwn yn weinidog ar y pryd. Cafodd fagwraeth gariadus ac aeth i ysgol Capel Iwan ac ysgol uwchradd fodern Henllan pan oedd J. Tysul Jones yn Brifathro.

Damwain

Byddai Stan a phlant Capel Iwan, Llwyndrain, Tanglwst a Chwm-cych yn teithio ar fws Clarkes. Byddai'n cofio'r bysys gwyrrd a'r cymeriadau mawr oedd y eu dreifio. Pan oedd yn gymharol ifanc cafodd ddamwain beic oedd yn gwneud gwaith corfforol ffermio yn anodd ac o ganlyniad fe benderfynodd werthu'r ffarm. Yng nghyfnod ei ieuencid bu'n weithgar yng Nghlwb Ffermyr Ifanc Capel Iwan, un o'r mudiadau gorau yng Nghymru sydd wedi magu arweinwyr ardderchog ac sy'n rhoi cyfle i ieuencid feithrin sgiliau megis siarad cyhoeddus. Defnyddiodd Stan y ddawn hon wrth siarad â'r cyhoedd yn Amgueddfa Sain Ffagan.

Caerdydd

Symudodd o Gapel Iwan i Gaerdydd a allai fod wedi bod yn sioc ddiwylliannol fawr iddo, ond doedd e ddim, oherwydd y Gymraeg yw iaith gyntaf yr Amgueddfa Werin. Cafodd Stan bleser pur yn ei waith, yn wir, ffordd o fyw oedd hi fel gofalwr a chyflawnodd y gwaith gyda brwdfrydedd ac yr oedd wrth ei fodd yng nghwmni ei gydweithwyr a'r ymwelwyr niferus y cyfarfu â hwy tros y blynyddoedd. Bu'n hynod ofalus o ofalwyr ifanc a ddeuai i weithio yno ac ar nodyn personol, bu'n hynod garedig gydag Endaf, ein mab ni. Hyd oed ar ôl ymdeol byddai ar y pwl a byddai'n fwy na pharod i weithio dyddiau achlysurol yn ôl y galw.

Diacon

Daliodd Stan gysylltiad agos â'r wlad gan fynd at y meddyg yn Llandysul ac i ymweld â theulu a ffrindiau. Parhaodd yn aelod yng Nghapel Iwan gan fynd yn ôl i Gymundeb os byddai ganddo benwythnos rhydd a pharchai ei weinidogion yn fawr, yn arbennig gweinidog cyfnod ei ieuencid sef y Parch. L. G. Roberts. Etholwyd ef yn ddiagon gan yr eglwys, oedd yn arwydd o'r parch mawr oedd gan yr aelodau tuag ato.

Ebeneser

Wedi symud i Gaerdydd mynychai Stan Ebeneser bob nos Sul a hynny'n aml ar ôl diwrnod o waith a bu mor ffyddlon ag unrhyw aelod o'r eglwys gan werthfawrogi'r weinidogaeth a chymdeithas gynnes yr eglwys ac roedd yn nabod pob un o aelodau'r oedfa hwyrol. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn enwad yr Annibynwyr. Prynai gopi o'r *Blwyddiadur* bob blwyddyn a byddai wrth ei fodd y darllen ôl-rifynnau o'r *Tyst*.

Iddewiaeth

Roedd gan Stan ddiddordeb mawr mewn Iddewiaeth ac fe aeth draw deirgwaith i Israel a threulio amser mewn *kibbutz* yno. Cymunedau a ffurfiwyd gyntaf yn 1909 yw'r *kibbutzim*, maen nhw'n gwneud gwaith ym maes amaethyddiaeth. Cymuned gydweithredol yw *kibbutz* sydd yn rhannu eiddo ac yn rhoi pwyslais ar yr iaith Hebraeg. Bu Stan yn mynd yno gan weithio i gasglu orenau a byddai hefyd yn cael benthyg beic i fynd o gwmpas y wlad. Roedd ganddo lyfrau ar Iddewiaeth yn ei dŷ ac fe'u darllenodd a'u hastudio.

Glynu wrth y da

Diolch i Robin Gwyndaf am ei ddewis o ddarlleniadau o'r Gair. Y ddau orchymyn mawr, y Gwynfydau a'r bennod ar gariad o'r llythyr at y Rhufeiniaid oedd yn cynnwys y geiriau, 'glynwch wrth y da'. Glynodd Stan wrth yr egwyddorion Cristionogol. Yn y Bregeth ar y Mynydd fe ddywedir fod y Cristion i fod fel halen a goleuni.

Halen y ddaear

Byddai rhaglen *Heno* 'slawer dydd yn rhoi plât Halen y Ddaear i bobl – heb os roedd Stan yn halen y ddaear. Dyma dri pheth am halen:

Mae halen yn puro. Gwyn eu byd y rhai pur o galon meddai'r Iesu.

Y mae halen yn cadw. Byddai Stan yn cofio dydd lladd mochyn yn Perthyngwenyn a'r modd y byddai ei fam yn halltu'r cig yn y llaethdy cyn ei hongian ar y bachyn. Gweithiodd Stan yn Sant Ffagan a chadw yn ddiogel yr holl drysorau sydd yno. Cadwodd hefyd ei ffydd a'i fuchedd.

Mae'r halen yn rhoi blas. Roedd Stan yn berson hapus iawn, yn mwynhau bywyd, a byddai yn codi ysbyrd pawb a ddeuai i gysylltiad ag ef, gyda'i wên siriol a'i chwerthin iach.

Cymeriad braf, llawen a hollol gywir oedd Stan a braint inni yw talu teyrnged iddo ac i'r Arglwydd am ei fywyd arbennig.

Gareth Morgan Jones

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dathlu 200 Madagascar

Aberaeron

Dydd Sadwrn, 9 Mehefin, 2.00

(Cyhoeddir yr union
leoliad maes o law)

Ar achlysur arbennig hwn o ddathlu glaniad y cenhadon o orllewin Cymru ym Madagascar, bydd dros 50 o ymwelwyr o'r wlad honno yn ymuno â ni yn y dathliad. Apeliwn ar aelodau eglwysi a chyfeillion i wneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol ar y diwrnod er mwyn i ni fedru dangos i'r ymwelwyr bwysigrwydd y dathliad i ni fel Cymry ac fel Annibynwyr.

Nos Sadwrn, 9 Mehefin, 7.30
Cyngerdd Dathlu

(Bydd tocynnau i'w cael mewn
da bryd cyn y dyddiad.)

Manylion pellach,
wrth iddynt ddod i law:

Twitter (@AnnibynwyrCymru)
Facebook (Undeb yr Annibynwyr)
Ein gwefan (www.annibynwyr.org)

Gellir hefyd ffonio Tŷ John Penri
01792 795888

Y RHWYDWAITH
MERCHED

Ysgoldy Llanuwchllyn

12 Mai

10.30 – 12.30

ELENID
JONES

Y Lloches
i ferched yn
Antananarivo
Madagascar



10.00 Te/coffi. Darperir cinio ysgafn gan aelodau Yr Hen Gapel.

Rhan o Apêl yr Undeb 2018
Mwy o fanylion: annibynwyr.cymru

Barn Annibynnol

Marw yn y tywyllwch

Yn 1993 penderfynodd y Cenhedloedd Unedig ddyodi 3 Mai fel Dydd Rhyddid y Wasg yn fydeang. Roedd yn benderfyniad pwysig ar y pryd gyda



llywodraethau democrataidd y Gorllewin yn awyddus i ddwyn perswâd ar weddill y byd i dderbyn egwyddor rhyddid barn a pharch at y gwirionedd. Chwarter canrif yn ddiweddarach mae'r cyfan yn ymddangos yn wahanol.



Eyrn Ogwen Williams

Ar draws y byd eleni bydd newyddiadurwyr yn colli eu rhyddid a'u bywydau am fentro ceisio rhoi goleuni ar ddrwgweithredu ac anghyfiawnder mewn gwledydd a llywodraethau awtocrataidd fel Twrci a Saudi a Myanmar; ond,

bellach, mae'r un peth yn digwydd mewn gwladwriaethau democrataidd fel Malta a hyd yn oed Israel.

Newyddion ffug

Mae arwyddair y Washington Post, 'Democracy dies in darkness' yn swnio'n eironig pan fo'r Arlywydd a'i gefnogwyr yn ei gyhuddo o gyhoeddi *fake news*. Mae angen

cofio mai perchennog y *Washington Post* yw Jeff Bezos, sylfaenydd a perchennog Amazon ac un o elynion busnes mwyaf Donald Trump; mae'r papur yn pwysleisio nad oes gan y perchennog unrhyw ddylanwad golygyddol ond mae'n ddigon i wanhau'r ymddiriedaeth yn y papur newydd. Ond y broblem fwyaf yw poblogrwydd y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi rhannu cymdeithas yn llwythau gwahanol ac mae'r disgwrs yn mynd yn fwy ffaidd bob dydd.

Penrhyddid

Oes unrhyw ystyr bellach i'r diwrnod arbennig yma? Beth yw arwyddocâd rhyddid y wasg pan fo'r mwyafrif yn dewis Facebook, Twitter a gwefannau eraill tebyg i dderbyn y newyddion maen nhw'n ei ddyddio? Mae hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i ymateb i'r newyddion hynny a dweud beth bynnag maen nhw eisiau, waeth pa mor ffaidd, heb ofni ymyrraeth olygyddol. Dyddiau penrhyddid i'r bwli a'r snichyn, ond wn i ddim am ryddid y wasg.

Gwirionedd

Fe wyddom mai'r cyntaf i ddiodeff mewn rhyfel yw'r gwir, ac mae digon o enghreifftiau o hynny yng nghyflafan Syria lle mae pennaeth gwladwriaeth yn lladd ei bobl, a nifer o wahanol wledydd yn ymladd dirprwy ryfel ar draul y diniwed. Wrth fod ninnau, yn ein cysur, yn gorfod mesur a phwyso bob hac ac ail-drydar heb unrhyw obaith y cawn ni oleuni na gwirionedd; ond pa ots am y gwir? Ym mhob cornel o'n byd anesmwyth mae'r un sefyllfa yn cael ei hail-adrodd. Beth am ryddid y wasg?

boblogaeth oedd yn medru'r Saesneg ac felly roedd yn angenrheidiol bod unrhyw un oedd yn mynd yno i gymryd rhan yn y dathlu yn hollol rugl a chartrefol yn y Ffrangeg. Trwy ei fachgendod clywai Havard lawer am Fadagascar oherwydd roedd gan ei dad, y Parchedig R. T. Gregory, ddiddordeb mawr yn y maes cenhadol ac yn arbennig ym Madagascar, a phan ddaeth y cyfle felly roeddem yn hapus iawn i fynd yno ar ein traul ein hunain gyda llawer o gymorth gan gysylltiadau Minny Street a'r Undeb i drefnu manau i aros.

Tlodi enbyd

Ar ôl teithio i Johannesburg ar ddechrau Awst aethom mewn awyren fach i Antanorivo, prif ddinas Madagascar ar yr ucheldir. Roedd y maes awyr yn dawel pan gyraeddasom, ond erbyn inni gyraedd y doll roedd y gweithwyr wedi ymgynnull yno i groesawu'r ymwelwyr o Gymru, gwlad David Jones a Thomas Bevan, ac oherwydd eu teymgarwch i'r cenhadon roedd y croeso a gawsom ni yn gynnes dros ben. O fewn ychydig bellter i'r maes awyr gwelom dlodi fel na ddychmygais i erioed. Gwelsom yr erchylltra o ferched yn byw o dan orchuddion plastig ar domen sbwriel, ac yn y dref yng nghartref un o aelodau'r eglwys lle roeddem ni'n aros roedd merch tua deng mlwydd oed yn forwyn. Ar lawr pridd y gegin oedd hi'n cysgu. Yn y bore edrychais allan o ffenestr y

Celwyddau Arlywyddol

Mae cryn sôn am werthoedd cenedl a chwmpawd moesol yn llyfr diweddar cyn bennaeth yr FBI, James Comey, a ddiswyddwyd gan Donald Trump. Diffyg gwerthoedd a moesoldeb ym mhersonoliaeth yr Arlywydd yw honiad a phryder Comey. Y broblem, wrth gwrs, yw bod tua hanner etholwyr yr Unol Daleithiau yn gwybod hynny cyn pleidleisio iddo ac ymhlith y rheini roedd mwyafrif aelodau'r eglwys Cristnogol ffwndamentaltaidd. Mae'r Arlywydd, gyda'i gelwyddau, ariangarwch a'i agwedd at fewnfudwyr, yn ystyried ei fod yn cynrychioli cwmpawd moesol a gwerthoedd cenedlaethol y weriniaeth.

Felly, mae swyddogaeth y wasg rydd yn gorfod treiddio'n ddyfnach na doethineb y mwyafrif; mae cyfrifoldeb newyddiadurwyr, fel proffwydi a beirders talwm, yn gorfod archwilio cymhellion dyfnaf cymdeithas a'i harweinwyr a chanolbwyntio ar gyflwr pobl gyffredin a throi'r goleuni ar dywyllwch anghyfiawnderau sy'n rhwygo'n cymdeithas a llawenhau yn y cariad sy'n rhoi eli ar greithiau. Mae'n bosibl na fydd hynny'n gwerthu llawer o bapurau, ond nid er mwyn hynny y dynodwyd 3 Mai yn ddydd Rhyddid y Wasg.

Eyrn Ogwen Williams

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tim golygyddol.)

stafell wely a gweld plant yn chwarae gerllaw ac wrth eu hymyl roedd llygod mawr.

Addoli

Bore Sul oedd hi ac aethom i un o gapeli mwya'r ddinas. Roeddem yno mewn digon o bryd a phob sedd yn barod yn llawn a phlant ymhobman, ond yr oedd un sedd wag a gedwid ar gyfer ymwelwyr annisgwyl yn y blaen. Roedd yr emynau i gyd yn gyfarwydd inni a hwythau yn eu canu yn y Falagaseg a ninnau yn Gymraeg. Galwyd ar Havard i ddweud gair o'r pulpod a chyflwynodd ddymuniadau gorau Cymru i'r gynulleidfa. Ar ôl yr oedfa cawsom banded a baratowyd gan fenywod y Dorcas, enw ar gyloch merched fu'n gyfarwydd iawn yng Nghymru gynt.

Toamasina

Trannoeth roeddem yn teithio gryn dipyn o ffordd o Antanorivo i Toamasina i'r arfordir dwyreiniol yn hanner gogleddol yr ynys. Roedd y ffordd yn eithaf da ac roedd cenhadon o'r Swistir a Ffrainc gyda ni a hefyd, er mawr lawenydd inni, Eleri Edwards, a fu'n gweithio ym Madagascar fel cenhades am flynyddoedd a pharch mawr iddi. Cawsom groeso cynnes iawn gan y Gweinidog, Alfred, a'i wraig Simone, ac aelodau'r eglwys yn Toamasina, ac yna aethpwyd â ni i gartref Arsène a Perline lle roeddem yn aros.

[i'w barhau]

Rhiannon Gregory

Madagascar 1993

Dyma'r gyntaf o dair erthygl gan Rhiannon Gregory, Minny Street, Caerdydd, yn adrodd hanes eu hymwelid ag ynys Madagascar ym 1993.

Eleni byddwn yn dathlu daucanmlwyddiant y cenhadon David Jones a Thomas Bevan yn mynd yn 1818 o Gymru i Fadagascar a'r antur honno yn un o'r rhai mwyaf cyffrous yn hanes ein cenedl. Bum mlynedd ar hugain yn ôl yn 1993 bu dathlu mawr arall yno i nodi pen-blwydd cant saith deg pump o flynyddoedd er pan aeth y cenhadon o Neuadd-lwyd i Fadagascar a chyflwyno'r ffydd Gristnogol i'r wlad. Braint Havard a ninnau oedd cael bod yn rhan o'r dathlu hwnnw, yn benodol oherwydd bod ein heglwys ni ym Minny Street wedi ei efeillio ag eglwys y Tranovato, sef yr eglwys yn Toamasina neu Tamatave yn Ffrangeg, prif borthladd Madagascar ar lan ddwyreiniol yr Ynys Fawr, ac roedd y berthynas rhwng y ddwy eglwys yn un agos iawn.

Ffrangeg

Goresgynnwyd Madagascar gan Ffrainc yn 1883 ac o hynny ymlaen nes i Fadagascar gael ei hannibyniaeth yn 1960 Ffrainc oedd yn llywodraethu'r wlad a'r iaith Ffrangeg oedd ar y brig. Yn 1993 cyfran fach o'r

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Beth yw bod yn eglwys?

Dyma gwestiwn mae'n siwr bod llawer ohonom wedi gofyn dros y blynyddoedd, ac yn arbennig felly yn y cyfnod dyrys mae'r eglwys yn ei chael ei hun ynddi heddiw. Tebyg iawn cafwyd atebion amrywiol i'r cwestiwn, ond tybed a fu ateb mwy radical ond ymarferol, na'r eiddo Sally Smith, Ficer Eglwys St Mark's yn ardal Shelton, Stoke-on-Trent? Cafodd nifer ohonom y fraint o glywed ei stori a thystio i'r eglwys fyw sydd yno, tra yng nghynhadledd ranbarthol CWM Ewrop ychydig wythnosau yn ôl.

Agor drws

Daeth Sally i St Mark's tua 5 mlynedd yn ôl, ac yn syth fe welodd yr angen oedd yn y gymuned o gwmpas yr eglwys, gyda nifer o geiswyr lloches yn yr ardal yn aros i'w statws gael ei benderfynu. Gan greu'n gryf mai lle'r eglwys yw agor y drws i adael pobl i mewn, dechreuodd Sally gynnig lle i bobl droi i mewn am banded, brechdan a sgwrs. Buan iawn daeth yr eglwys yn gyrchfan i fwy a mwy o geiswyr lloches a ffoaduriaid, a sylweddolwyd, er mor werthfawr y banded a'r glust barod i wrando stori, bod angen llawer mwy – cymorth gyda biwrocratiaeth, lle i aros ar frys, help gyda bwyd ac offer babi, gwersi dysgu Saesneg, gwasanaeth cyfieithu a gofal ysbyrdol.

Canolfan alw

Roeddem ni yno ar fore Mercher, un o ddau fore yn yr wythnos lle mae'r eglwys yn gweithredu fel canolfan galw heibio. Yno roedd staff o swyddfa'r AS lleol, gweithwyr y ganolfan gynghori, swyddogion tai'r cyngor lleol a nysrws i ddellio gyda thua 120 o bobl fyddai'n troi i mewn yn ystod y bore. Roedd hefyd tîm o wirfoddolwyr yn gyfrifol am wers dysgu

Saesneg, rhedeg meithrinfa, gweithio ar y stonddin llysiâu a bwyd, gwneud paned, chwarae gwyddbwyll neu jyst bod yn ffrind.



Sadwrn

Pob prynhawn Sadwrn, mae'r eglwys yn cynnig gweithgareddau fel tennis bwrdd, dartiau, gemau bwrdd, pêl-droed a chyflle eto i bobl i gymdeithasu, mwynhau pryd o fwyd gyda'i gilydd a rhannu eu problemau a'u gofidiau. 'R'ym ni'n agored', medd Sally, 'R'ym ni'n siarad am faterion. R'ym ni'n dod a phobl at ei gilydd er mwyn delio gydag unrhyw gwrthdaro gall godi a datrys problemau.'

Sul

Ar fore Sul cynhelir yr addoliad, sy'n gymysgfa o'r traddodiadol a'r modern, ac sy'n cael ei gyfieithu i sawl iaith wahanol – a ninnau'n cael problem gyda dwy! Mae Suresh, sy'n arwain yr addoliad, yn gerddor sy'n dod yn wreiddiol o Nepal, ac fe adroddodd ei stori ef a'i wraig wrthym. Y gwrthwynebiad teuluol iddynt briodi oherwydd y system *caste*, a gorfod ffoi o'u

gwlad, ac yn y diwedd cyrraedd Prydain. Ar nos Fawrth mae grŵp sy'n cwrdd i astudio'r Beibl a thrafod y ffydd, a darganfod mwy o'r hyn mae'n golygu i ddilyn Crist. 'Rydym ar daith fel eglwys,' medd Sally. 'Taith sydd wedi mynd a ni yn ôl i'r sylfaeni er mwyn dechrau o'r newydd.' Ychwanegodd, 'Roeddwn i'n credu mod i'n deall beth oedd Cristnogaeth uniongred, ac yn sydyn ces fy herio i ofyn y cwestiwn, Beth r'ym ni'n gwneud yma?'

Troi cefn ar weledigaeth

Y tristwch yw bod cymaint o'r gynulleidfa draddodiadol wedi gwrthod ymuno â'r daith ac wedi gadael St Mark's. Ond mae cnewyllyn wedi ymateb i weledigaeth Sally ac wedi aros, ac mae'n amlwg fod Duw yn bendithio'r hyn sy'n digwydd, gyda chynulleidfa gref o Gristnogion newydd. Fel dwedodd Illiya, un arall o'r tîm sy'n arwain yno, 'Mae'r eglwys wedi tyfu, ac mae pobl wedi dod i ffydd bersonol. Wrth ymateb i'r angen o'n cwmpas rydym wedi ein trawsfurfio.' Pe gofynnech chi i Sally a phobl St Mark's y cwestiwn beth yw bod yn eglwys, yr ateb fyddai bod yn lle agored a chroesawgar, bod yn fan sy'n cynnig lloches a diogelwch, bod yn gymdeithas sy'n caru ac yn tosturio, a hynny i bawb sy'n dod i gysylltiad â hi.



Go iawn

Meddai hi, 'Rydym yn ceisio byw Dameg y Defaid a'r Geifr,' gan ddyfynnu: 'Chi roddodd fwyd i mi pan oeddwn i'n llwgu; chi roddodd ddiod i mi pan oedd syched arna i; chi roddodd groeso i mi pan oeddwn i ddim yn nabod neb.' Mathew 25:35. Roedd pawb ohonom wedi ein cyffwrdd gan ein profiad o St Mark's, ac rwy'n credu bod un wedi crynhoi'n wych iawn yr hyn oedd yn arbennig amdano gyda'r geiriau, 'Mae hwn yn *authentic*' hynny yw, eglwys go iawn sydd yma! Dim chwarae ar fod yn eglwys, ond ymgais wirioneddol i fynd i'r afael a her Iesu i'w ddilyn heddiw.

Robin Samuel

